**Atodiad 2**

# Cynllun Gweithredu Cyngor Gwynedd

Dyddiad yr archwiliad: 22 – 26 Chwefror 2016
Ymweliad dilynol: 28 Chwefror – 1 Mawrth 2018

Dyddiad yr ymweliad archwilio: 2 – 3 Hydref 2024

Allwedd statws

| | |
|---|---|
| Glas | Cwblhawyd |
| Gwyrdd | Cynnydd da |
| Oren | Cynnydd cyfyngedig |
| Coch | Dim cynnydd |

| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
|---|---|---|---|---|
| 3.20 (i) Sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth y dyfodol ar gyfer hylendid a safonau bwyd yn cael eu datblygu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Yn benodol, dylid rhoi amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau gan ystyried y rheiny sydd ar gael, a dylid rhoi esboniad am unrhyw amrywiadau a nodwyd yn yr adolygiad gwasanaeth. [Y Safon – 3.1] | Oren | Mae'n rhaid i ymrwymiadau sy'n ymwneud â'r rhaglenni ymyrryd ar gyfer hylendid bwyd Categori E a safonau bwyd Categori C fod yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Os oes unrhyw ymyriadau yn weddill o'r flwyddyn flaenorol, dylid adlewyrchu hyn yn y rhaglen ymyrryd.<br><br>Dylid nodi'r costau sydd ynghlwm wrth gamau gweithredu cyfreithiol.<br><br>Dylid darparu dadansoddiad o'r galw ar adnoddau, ynghyd â chymhareb gyffredinol rhwng yr adnoddau sydd ar gael a'r rhai sydd eu hangen, yn unol â | Mae ymyriadau sy'n weddill o'r flwyddyn flaenorol wedi'u nodi a'u cynnwys yn y rhaglen ymyrryd bresennol. | Mae'n rhaid i ymrwymiadau sy'n ymwneud â'r rhaglenni ymyrryd ar gyfer hylendid bwyd Categori E a safonau bwyd Categori C fod yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.<br><br>Dylid nodi'r costau sydd ynghlwm wrth gamau gweithredu cyfreithiol.<br><br>Dylid darparu dadansoddiad o'r galw ar adnoddau, ynghyd â chymhareb gyffredinol rhwng yr adnoddau sydd ar gael a'r rhai sydd eu hangen, yn unol â Chanllawiau Cynllunio Gwasanaeth. |

| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
|---|---|---|---|---|
| | | Chanllawiau Cynllunio Gwasanaeth. | | |
| 3.20 (ii) Sicrhau bod yr adolygiad perfformiad sy'n seiliedig ar Gynllun Gwasanaeth y flwyddyn flaenorol wedi'i gyflwyno i'r aelod fforwm neu'r uwch-swyddog perthnasol i'w gymeradwyo. [Y Safon – 3.2] | Coch | Sicrhau bod yr adolygiad o'r Cynllun Gwasanaeth yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo ar y lefel gywir o fewn yr awdurdod, yn unol â'r Safon. | | Sicrhau bod yr adolygiad o'r Cynllun Gwasanaeth yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo ar y lefel gywir o fewn yr awdurdod, yn unol â'r Safon. |
| 5.10 (i) Adolygu a diwygio ei awdurdodiadau i sicrhau y caiff swyddogion eu hawdurdodi'n briodol dan yr holl ddeddfwriaeth berthnasol, a sicrhau y caiff asesiadau o gymhwysedd swyddogion eu cofnodi. [Y Safon – 5.1] | Gwyrdd | Mae angen adolygu'r awdurdodiadau ymhellach i sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth ofynnol yn cael ei chynnwys. | Mae Rheoliadau Gwlad Tarddiad Cigoedd Penodol (Cymru) wedi'u hychwanegu at awdurdodiadau swyddogion perthnasol. | Sicrhau y rhoddir pwerau i'r person(au) sydd wedi'u dirprwyo i awdurdodi swyddogion fel bod modd iddynt awdurdodi swyddogion o dan yr holl ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys Rheoliadau Gwlad Tarddiad Cigoedd Penodol (Cymru). |
| 5.10 (ii) Sicrhau y caiff swyddogion sydd â gwybodaeth arbenigol eu penodi i fod yn bennaf cyfrifol am ddeddfwriaeth hylendid bwyd a safonau bwyd. [Y Safon – 5.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 5.10 (iii) Sicrhau bod nifer priodol o swyddogion awdurdodedig wedi'u penodi i gynnal rheolaethau swyddogol hylendid bwyd a safonau bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 5.3] | Coch | Dylai'r awdurdod sicrhau ei fod yn penodi nifer priodol o swyddogion awdurdodedig. | Diffygion pellach yn nifer y staff CALl sydd ar gael. | Dylai'r awdurdod sicrhau ei fod yn penodi nifer priodol o swyddogion awdurdodedig. |
| 5.10 (iv) Sicrhau bod yr holl swyddogion awdurdodedig yn bodloni'r gofynion hyfforddi a amlinellir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, gan gynnwys hyfforddiant HACCP. [Y Safon – 5.4] | Glas | Dylai'r awdurdod sicrhau bod hyfforddiant HACCP addas yn cael ei ddarparu i swyddogion sydd ei angen. Dylai'r awdurdod ystyried hyfforddiant o bob ffynhonnell bosib. | Roedd swyddogion perthnasol wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant HACCP a ddarparwyd gan yr ASB. | Cwblhawyd. |
| 5.10 (v) Cadw cofnodion o gymwysterau academaidd neu gymwysterau perthnasol eraill ar gyfer swyddogion hylendid bwyd awdurdodedig. [Y Safon – 5.5] | Glas | Cwblhawyd. | | |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 7.26 (i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder lleiaf a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Oren | Sicrhau bod pob busnes yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. | Mae camau adferol ar y gweill, ond mae diffygion mewn CALl a chyllideb yn dangos bod y camau adferol hyn yn debygol o fynd ar yn ôl. | Sicrhau bod pob busnes yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. |
| 7.26 (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a'i weithdrefnau. [Y Safon – 7.2] | Gwyrdd | Sicrhau bod ffurflenni cofrestru wedi'u stampio â'r dyddiad a bod y broses o gymeradwyo'n amodol yn cael ei chynnal yn gywir yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. | Ffurflenni cofrestru wedi'u stampio â'r dyddiad. | Sicrhau y cynhelir y broses o gymeradwyo'n amodol yn unol â'r gofynion. |
| 7.26 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal yn llwyr, yn unol â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol. [Y Safon – 7.3] | Gwyrdd | Sicrhau bod asesiadau trylwyr yn cael eu cynnal yn gyson mewn perthynas â nodau adnabod sy'n dod i mewn a bwyd a fewnforir. | Lle bo'n berthnasol, mae asesiadau mewn perthynas â nodau adnabod sy'n dod i mewn a bwyd a fewnforir yn cael eu cynnal mewn safle cymeradwy. | Sicrhau bod asesiadau trylwyr yn cael eu cynnal yn gyson mewn safleoedd cofrestredig mewn perthynas â nodau adnabod sy'n dod i mewn a bwyd a fewnforir. |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 7.26 (iv) Sicrhau y caiff y gweithdrefnau cofnodedig eu hadolygu a'u diwygio mewn perthynas â gweithdrefnau lleol ar gyfer Strategaeth Orfodi Amgen a chyfarwyddiadau cronfa ddata penodol ar gyfer cofnodi sefydliadau cymeradwy. [Y Safon – 7.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 7.26 (v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed a data a gafwyd yn ystod arolygiad yn cael eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn sicrhau na fydd gwybodaeth berthnasol yn mynd ar goll. [Y Safon – 7.5] | Gwyrdd | Sicrhau bod cofnodion yn adlewyrchu'n gyson asesiadau trylwyr mewn perthynas â nodau adnabod sy'n dod i mewn a bwyd a fewnforir.<br><br>Sicrhau y caiff cofnodion unrhyw Strategaeth Orfodi Amgen eu cynnal yn unol â'r weithdrefn. | Mae cofnodion arsylwi'n adlewyrchu asesiadau mewn sefydliadau cymeradwy.<br><br>Strategaeth Orfodi Amgen heb ei chynnal ar hyn o bryd. | Sicrhau bod cofnodion yn adlewyrchu'n gyson asesiadau trylwyr mewn safleoedd cofrestredig mewn perthynas â nodau adnabod sy'n dod i mewn a bwyd wedi'i fewnforio.<br><br>Sicrhau y caiff cofnodion unrhyw Strategaeth Orfodi Amgen eu cynnal yn unol â'r weithdrefn. |
| 7.46 (i) Sicrhau y caiff ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd eu cynnal ar yr amlder lleiaf | Oren | Sicrhau bod pob busnes yn cael | Mae camau adferol ar y gweill, ond mae diffygion mewn CALl a | Sicrhau bod pob busnes yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. |

| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
|---|---|---|---|---|
| a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | | ymyriad priodol ar yr amlder cywir. | chyllideb yn dangos bod y camau adferol hyn yn debygol o fynd ar yn ôl. | |
| 7.46 (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd, gan gynnwys strategaethau gorfodi amgen a chofrestru sefydliadau, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 7.46 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal yn unol â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol. [Y Safon – 7.3] | Oren | Sicrhau y caiff asesiadau trylwyr eu cynnal yn gyson mewn perthynas â chyfansoddiad, labelu ac olrheiniadwyedd. | Peth tystiolaeth o asesiadau trylwyr. | Sicrhau y caiff asesiadau trylwyr eu cynnal yn gyson mewn perthynas â chyfansoddiad, labelu ac olrheiniadwyedd. |
| 7.46 (iv) Diwygio gweithdrefnau'r Strategaeth Orfodi Amgen i roi canllaw ar bwy ddylai gyflawni ac adolygu'r wybodaeth a gesglir yn ystod Strategaeth Orfodi Amgen. [Y Safon – 7.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 7.46 (v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed a/neu'r data a gasglwyd yn ystod arolygiad/ymyriad safonau | Oren | Sicrhau bod cofnodion yn adlewyrchu asesiadau | Peth tystiolaeth o asesiadau trylwyr. | Sicrhau bod cofnodion yn adlewyrchu asesiadau trylwyr yn gyson mewn |

| Camau i fynd i’r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni’n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| bwyd yn cael eu cofnodi’n amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon – 7.5] | | trylwyr yn gyson mewn perthynas â chyfansoddiad, labelu ac olrheiniadwyedd. | | perthynas â chyfansoddiad, labelu ac olrheiniadwyedd. |
| 8.8 (i) Diwygio ei weithdrefn gwyno er mwyn cynnwys gwybodaeth am amserau ymateb targed y cytunwyd arnynt ar gyfer cwynion am safonau bwyd. [Y Safon – 8.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 8.8 (ii) Sicrhau yr ymchwilir i gwynion a ddaw i law yn unol â gweithdrefnau lleol i gynnwys amserau ymateb targed, cymryd camau priodol, a rhoi gwybod i’r sawl sy’n cwyno am ganlyniad yr ymchwiliadau wedi iddynt ddod i ben. [Y Safon – 8.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 9.6 (i) Sicrhau ei fod yn cysylltu â’r Prif Awdurdod, yr Awdurdod Cartref neu’r Awdurdod Tarddiadol mewn perthynas â throseddau a nodwyd yn ystod ymyriadau a samplau anfoddhaol. [Y Safon – 9.1, 9.4 a 9.6] | Gwyrdd | Mae angen sicrhau bod canlyniadau samplau anfoddhaol a throseddau a nodwyd yn ystod ymyriadau yn cael eu dwyn i sylw awdurdodau perthnasol eraill. | Tystiolaeth o gysylltu â Phrif Awdurdod ynghylch troseddau a nodwyd yn ystod ymyriadau.<br><br>Nid oedd samplau hylendid bwyd a archwiliwyd yn rhan o brif awdurdod. Mae’r | Sicrhau bod cyswllt yn digwydd gydag awdurdodau cartref a tharddiadol ynghylch troseddau a nodwyd yn ystod ymyriadau a chanlyniadau hylendid bwyd anfoddhaol. |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | | elfen hon yn dal heb ei phrofi. | |
| 11.4 (i) Sicrhau bod data sgoriau risg a hylendid bwyd, ynghyd â dyddiadau arfaethedig arolygiadau hylendid bwyd a safonau bwyd yn cael eu cynnwys a'u cadw'n gywir yng nghronfa ddata'r awdurdod. [Y Safon – 11.1] | Gwyrdd | Sicrhau bod elfennau sgorio risg sy'n gysylltiedig â risgiau sylweddol a grwpiau agored i niwed / sgoriau ar gyfer mathau o fwyd yn cael eu cymhwyso'n gyson, a bod gwallau dyddiadau dyledus yn gostwng ymhellach. | Roedd gwallau ynghylch dyddiadau dyledus wedi gostwng yn sylweddol. Ni chanfuwyd unrhyw wallau yn ymwneud â dyddiadau dyledus hirach. | Sicrhau bod elfennau sgorio risg sy'n gysylltiedig â risgiau sylweddol a grwpiau agored i niwed / sgoriau ar gyfer mathau o fwyd yn cael eu cymhwyso'n gyson. |
| 12.10 (i) Diwygio a chyflwyno ei bolisi samplu cofnodedig i gynnwys trefniadau samplu y tu allan i oriau a samplu gwelyau pysgod cregyn, a sicrhau bod ei raglen samplu'n cynnwys manylion mewn perthynas â samplu gwelyau pysgod cregyn. [Y Safon – 12.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 12.10 (ii) Diwygio ei weithdrefnau i gynnwys caffael neu brynu bwyd solid/wedi'i rewi a hylifol/swp ar gyfer archwiliadau microbiolegol a dadansoddiad safonau bwyd. Mewn perthynas ag archwiliadau microbiolegol, diwygio ei | Glas | Cwblhawyd. | | |

| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
|---|---|---|---|---|
| weithdrefn i gynnwys samplu gwelyau pysgod cregyn a hysbysu ffurfiol ynghylch canlyniadau samplu. [Y Safon – 12.5] | | | | |
| 12.10 (iii) Cymryd camau priodol yn unol â'i Bolisi Gorfodi lle nad ystyrir bod canlyniadau samplau'n foddhaol. [Y Safon – 12.7] | Gwyrdd | Sicrhau bod samplau microbiolegol anfoddhaol yn cael eu rhannu'n gywir â'r gweithredwr busnes bwyd cofrestredig.<br><br>Sicrhau y caiff camau gorfodi priodol eu cymryd mewn perthynas â samplau safonau bwyd anfoddhaol. | Gwella camau dilynol yn sgil samplau microbiolegol anfoddhaol a chymryd camau dilynol amserol yn sgil canlyniadau samplu safonau bwyd anfoddhaol.<br><br>Ni chymerwyd unrhyw samplau safonau bwyd o fewn cwmpas yr archwiliad. Roedd yr elfen hon o'r argymhelliad felly heb ei phrofi. | Sicrhau bod samplau microbiolegol anfoddhaol yn cael eu rhannu'n gywir â'r gweithredwr busnes bwyd cofrestredig.<br><br>Sicrhau y caiff camau gorfodi priodol eu cymryd mewn perthynas â samplau safonau bwyd anfoddhaol. |
| 13.11 (i) Diwygio'r weithdrefn ar gyfer ymchwilio i achosion achlysurol o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd er mwyn | Glas | Cwblhawyd. | | |

| Camau i fynd i’r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni’n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| sicrhau y cynhelir ymchwiliad i bob hysbysiad, yn unol â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a sicrhau y caiff y weithdrefn ei chyflwyno’n llawn. [Y Safon – 13.2] | | | | |
| 15.20 (i) Adolygu a diwygio ei bolisi gorfodi i gynnwys manylion ei drefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion hylendid bwyd a safonau bwyd yn y sefydliadau hynny lle mae’n weithredwr busnes bwyd, a chyfeirio at y Cynlluniau Awdurdod Cartref a Phrif Awdurdod. [Y Safon – 15.1] | Oren | Cwblhau a chymeradwyo’r polisi gorfodi drafft diwygiedig. | Mae polisi gorfodi terfynol ar waith. | Sicrhau bod y polisi gorfodi wedi’i gymeradwyo yn unol â chynllun dirprwyo’r Awdurdod. |
| 15.20 (ii) Diwygio ei weithdrefnau gorfodi cofnodedig ar gyfer hysbysiadau gwella, hysbysiadau camau unioni ac atal ac atafael yn unol â’r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol, a chofnodi ei weithdrefn ar gyfer cyflawni rhybuddion syml ac erlyniadau. [Y Safon – 14.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 15.20 (iii) Sicrhau y caiff gwaith gorfodi hylendid bwyd, gan | Oren | Sicrhau bod cofnodion o | Cedwir cofnodion ar gyfer cyhoeddi | Sicrhau bod cofnodion o Hysbysiadau Gwella |

| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
|---|---|---|---|---|
| gynnwys Hysbysiadau Camau Unioni a Hysbysiadau Gwella Hylendid, ei gyflawni yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau lleol. [Y Safon – 15.3] | | Hysbysiadau Gwella Hylendid a Hysbysiadau Camau Unioni yn gyson glir o ran y dull cyhoeddi a'u bod yn bodloni gofynion cyfreithiol, a bod gwiriadau ar gydymffurfiaeth yn gyson amserol.<br><br>Sicrhau bod cytundebau ildio gwirfoddol yn cynnwys amser a dull dinistrio, a bod cofnodion dinistrio bwyd yn cynnwys y dull a ddefnyddiwyd. | Hysbysiadau Camau Unioni a Hysbysiadau Gwella Hylendid o bryd i'w gilydd, ac mae cofnodion o wiriadau amserol ar gydymffurfiaeth ar gael weithiau.<br><br>Nid yw'r cofnodion ynghylch dinistrio bwyd anniogel yn cynnwys digon o wybodaeth na manylion. | Hylendid a Hysbysiadau Camau Unioni yn gyson glir o ran y dull cyhoeddi a'u bod yn bodloni gofynion cyfreithiol, a bod gwiriadau ar gydymffurfiaeth yn gyson amserol.<br><br>Sicrhau bod cytundebau ildio gwirfoddol yn cynnwys amser a dull dinistrio, a bod cofnodion dinistrio bwyd yn cynnwys y dull a ddefnyddiwyd. |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 15.20 (iv) Sicrhau y caiff yr holl benderfyniadau ar gamau gorfodi eu gwneud ar ôl ystyried Polisi Gorfodi'r Awdurdod. Dylid dogfennu'r rhesymau dros unrhyw wyro oddi wrth y meini prawf a nodir yn y Polisi Gorfodi. [Y Safon – 15.4] | Oren | Sicrhau bod camau gorfodi'n cael eu dwysáu'n briodol yn dilyn ymyriadau a samplau safonau bwyd. | Tystiolaeth gyfyngedig o uwchgyfeirio troseddau safonau bwyd sy'n codi yn ystod ymyriadau.<br><br>Dim samplau anfoddhaol ar gael i'w harchwilio. | Sicrhau bod camau gorfodi'n cael eu dwysáu'n briodol yn dilyn ymyriadau a samplau safonau bwyd. |
| 16.8 (i) Sicrhau y caiff ffurflenni cofrestru busnesau bwyd cyfredol eu cadw a'u bod yn hygyrch, ac y caiff cynnwys ffeiliau sefydliadau ar gyfer safleoedd cymeradwy eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cynnwys y dogfennau perthnasol, fel sy'n ofynnol yn ôl Atodiad 10 i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 16.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 16.15 (i) Sicrhau y caiff ffurflenni cofrestru busnesau bwyd eu cynnal a'u cadw a'u bod yn hygyrch, y rhoddir adroddiad i fusnesau yn dilyn ymyriad/arolygiad, a bod adroddiadau am safonau bwyd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl Atodiad 6 i'r Cod | Glas | Sicrhau bod cofnod o'r person a welwyd a bod gwahaniaeth clir rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion yn cael eu cynnwys yn gyson mewn adroddiadau. | Erbyn hyn, mae cofnod o'r person a welwyd yn cael ei gadw'n gyson, a cheir gwahaniaeth clir rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion. | Cwblhawyd. |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 16.1] | | | | |
| 16.15 (ii) Sicrhau y caiff cofnodion am ymyriadau safonau bwyd eu cadw am o leiaf chwe blynedd. [Y Safon – 16.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 19.10 (i) Adolygu a chyflwyno'r gweithdrefnau monitro mewnol cofnodedig yn llwyr er mwyn gwella'r asesiad ansoddol o'r ystod lawn o weithgarwch hylendid bwyd a safonau bwyd. [Y Safon – 19.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 19.10 (ii) Ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd, gwirio ei fod yn cydymffurfio â'r Safon, y ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod. [Y Safon – 19.2] | Oren | Sicrhau bod cofnodion monitro mewnol yn adlewyrchu graddfa lawn y gweithgarwch monitro, gan gynnwys agweddau ansoddol ar y Strategaeth Orfodi Amgen, ceisiadau am wasanaeth, ymchwiliadau i glefydau heintus, | Mae rhai agweddau ar y gwaith, gan gynnwys gwybodaeth arolygu a dyddiadau ceisiadau am wasanaethau, yn cael sylw er mwyn cynhyrchu adroddiadau i uwch-reolwyr ar y gwasanaethau a ddarperir. Gwybodaeth gyfyngedig wedi'i dogfennu. | Sicrhau bod cofnodion monitro mewnol, gan gynnwys adborth, yn adlewyrchu graddfa lawn y gweithgarwch monitro, gan gynnwys agweddau ansoddol ar y Strategaeth Orfodi Amgen, ceisiadau am wasanaeth, ymchwiliadau i glefydau heintus, ymchwiliadau samplu dilynol. |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | ymchwiliadau samplu dilynol. | | |
| Camau gweithredu mewn perthynas â chynllunio gwasanaeth yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Coch | | | Sicrhau bod y cynllun gwasanaeth yn cynnwys rhagamcan o nifer y sefydliadau heb sgôr y mae ymweliad sgorio'n ddyledus o hyd. Sicrhau bod sefydliadau heb sgôr yn cael eu blaenoriaethu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio, a bod y cynllun gwasanaeth yn cynnwys cynllun i fynd i'r afael ag ymyriadau heb eu cyflawni yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth. |
| Camau gweithredu mewn perthynas â data ymyrryd yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Gwyrdd | | Roedd gwallau ynghylch dyddiadau dyledus wedi gostwng yn sylweddol.<br><br>Cywirwyd nifer bach o anghysondebau ynghylch sgoriau risg mewn perthynas â hyder mewn rheolaeth | Sicrhau bod sgoriau hyder mewn rheolwyr yn adlewyrchu hanes y busnes yn gyson. |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | | a chasglu gwybodaeth safonol yn ystod yr archwiliad.<br>Peth hyder yn y sgoriau ar gyfer rheolwyr sy'n gyson â'r wybodaeth sydd ar gael o ran hanes cydymffurfio.<br><br>Pwynt gweithredu'n ymwneud ag arolygiadau a gwblhawyd o dan y CSHB wedi'i ddileu er mwyn osgoi dyblygu argymhelliad cyfredol 7.26 (i). | |
| Camau gweithredu mewn perthynas â gweithdrefnau ymyrryd a gorfodi yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Gwyrdd | | Gweithdrefnau ymyrryd wedi'u diwygio.<br>Darperir gweithdrefnau ar gyfer holl opsiynau gorfodi'r CSHB. | Diwygio gweithdrefnau ymyrryd/ gorfodi ac aide-mémoires ymhellach i fynd i'r afael â chanfyddiadau archwiliad y CSHB sydd heb eu cyflawni i gynnwys:<br>- dull o flaenoriaethu safleoedd heb sgôr, yn seiliedig ar risg. |

| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | - Aide-mémoire G a ffurflen gymeradwyo 3 maes ar gyfer yr holl wiriadau mynediad a nifer y mynedfeydd<br>- Cyflwyno rhybuddion / camau gorfodi ffurfiol yn adeiladau'r Cyngor. |
| Camau gweithredu mewn perthynas ag adroddiadau arolygu yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Gwyrdd | | Mae gwybodaeth lawn am gostau ail-sgorio bellach wedi'i chynnwys ym mhob llythyr. | Sicrhau y rhoddir gwybod am adroddiadau a hysbysiadau i'r gweithredwr busnes bwyd yn gyson ac o fewn yr amserlen briodol. |
| Camau gweithredu mewn perthynas â monitro mewnol yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Glas | | Diogelu gwybodaeth wedi'i rhagboblogi mewn adroddiadau arolygu a'i gwirio fel rhan o waith monitro mewnol. | Cwblhawyd. |

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr argymhellion** | **39** |
| **Cwblhawyd** | **17** |
| **Cynnydd da** | **10** |
| **Cynnydd cyfyngedig** | **9** |
| **Heb gymryd unrhyw gamau gweithredu** | **3** |
| **Cyfanswm sy'n weddill** | **22** |